

**2012 Rhif 791 (Cy. 106)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a  
Thref (Rheoli Hysbysebion)  
(Diwygio) (Cymru) 2012

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 ("Rheoliadau 1992") yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer ffurf ceisiadau am gydsyniad datganedig i arddangos hysbyseb.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn amnewid rheoliad 9 o Rheoliadau 1992. Mae'r rheoliad 9 a amnewidiwyd yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am gydsyniad datganedig gael eu gwneud ar ffurflen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ac yn pennu'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am gydsyniad datganedig. Cyhoeddwyd y ffurflen ar wefan y Porth Cynllunio ac y mae ar gael ar y wefan honno a gan awdurdodau cynllunio lleol.

Paratowyd asesiad effaith mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau gan: Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar-lein yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk).

## 2012 Rhif 791 (Cy. 106)

### CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

#### Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Diwygio) (Cymru) 2012

*Gwnaed* 10 Mawrth 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 13 Mawrth 2012

*Yn dod i rym* 30 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 220(1) a (2A) a 333(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

#### Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Diwygio) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—

- (a) ceisiadau a wneir ar 30 Ebrill 2012 neu ar ôl hynny; a
- (b) Cymru.

---

(1) 1990 p.8. Diwygiwyd adran 220 gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5), adran 42(4). Diwygiwyd adran 333(1) gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 78 ac Atodlen 10, paragraff 32(12).

(2) Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan yr adrannau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

## **Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992**

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 9 rhodder—

### **“Applications for express consent**

9.—(1) An application for express consent must be made to the local planning authority.

(2) Subject to paragraph 6, the application must be made electronically or in hard copy on a form published by the Welsh Ministers or a form substantially to the same effect.

(3) The applicant must—

- (a) include the particulars specified in the form; and
- (b) send with the application (whether electronically or otherwise) a plan which—
  - (i) is drawn to an identified scale,
  - (ii) shows the direction of north,
  - (iii) identifies the location of the site by reference to at least two named roads, and
  - (iv) identifies the proposed position of the advertisement.

(4) Unless an application is made electronically or the local planning authority indicates that fewer copies are required, three copies of the completed form and the plan must accompany the application.

(5) Where the application is one to which directions given by the Welsh Ministers under regulation 10 apply, the applicant must send with the application (whether electronically or otherwise) such particulars, plans or information specified or referred to in those directions as may have been notified to the applicant by the local planning authority.

(6) An application made on or after 30 April 2012 and before 30 May 2012, otherwise than by a local planning authority, may be made in writing on a form devised by the local planning authority.

(7) Where an application is made electronically, the applicant is taken to have agreed—

---

(1) O.S. 1992/666, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

- (a) to the use by the local planning authority of electronic communication for the purposes of the application;
- (b) that the applicant's address for that purpose is the address incorporated into, or otherwise logically associated with, the application; and
- (c) that deemed agreement under this paragraph subsists until the applicant gives notice in writing—
  - (i) withdrawing any address notified to the authority for that purpose, or
  - (ii) revoking that deemed agreement,and such withdrawal or revocation is final and takes effect on a date specified by the applicant in the notice at least seven days after the date on which the notice is given.

(8) An application made electronically must, unless the contrary is proved, be treated as having been delivered at 9.00 a.m. on the next working day after the day on which it is transmitted.

(9) This regulation applies to applications for renewal consent as it applies to applications for consent.

(10) An application for the renewal of an express consent may not be made more than 6 months before the date on which the consent is due to expire.”.

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy,  
un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2012